Cais am Sgrinio Cofnodion Meddygol

Enw eich Meddyg Teulu: _____

Cyfeiriad y Meddyg Teulu / y Practis: _____

_____

_____ Dyddiad: _____

Annwyl Feddyg

Rwyf wrthi'n gwneud cais am dystysgrif arf tanio a/neu ddryll, neu i gofrestru'n werthwr arfau tanio. Mae'n rhaid i mi ddarparu gwybodaeth feddygol ffeithiol gan fy meddyg teulu er mwyn ategu fy ffurflen gais. Rwy'n sylweddoli y gall ffi fod yn daladwy ac rwyf yn fodlon ei thalu, ac na chaiff yr adroddiad ei lunio nes i'r ffi briodol gael ei thalu.

Gweler yn amgaeedig ffurflen i'r meddyg teulu ei llenwi. Mae'r ffurflen yn gofyn am wybodaeth feddygol ffeithiol sydd ond yn gysylltiedig â'r cyflyrau meddygol perthnasol fel y'u rhestrir. Rwyf wedi cael gwybod gan yr Heddlu na fydd allbrint syml o'm hanes meddygol yn ddigonol at y diben hwn.

At hynny, a gaf i ofyn i chi ond wneud sylwadau ar wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r cyflyrau meddygol perthnasol sy'n effeithio ar fy addasrwydd i feddu ar arfau tanio a drylliau.

Noder NAD yw'r Heddlu yn gofyn am eich barn broffesiynol am fy iechyd na fy llesiant, ac nad ydynt yn gofyn i chi wneud penderfyniad ynghylch rhoi tystysgrif i mi. Yr heddlu yn unig sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad hwn.

Unwaith y caiff y ffurflen atodedig ei chwblhau, cysylltwch â mi er mwyn i mi ei chasglu.

CYDSYNIAD:

Rhoddaf ganiatâd i'r heddlu gysylltu â'm meddyg teulu a/neu fy arbenigwr i gael manylion ffeithiol am unrhyw hanes meddygol mewn perthynas â'm haddasrwydd i feddu ar arf tanio a/neu ddryll.
Mae'r awdurdod hwn yn ddilys am oes y dystysgrif neu dystysgrifau. Deallaf y gall fy meddyg teulu rannu data personol sensitif â'r heddlu ynglŷn â'm hiechyd corfforol a'm hiechyd meddwl er mwyn galluogi'r heddlu i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth lawn ar fy nghais a'm haddasrwydd parhaus, ac rwyf drwy hyn yn caniatáu i'm data personol gael eu prosesu yn y modd hwn .

Llofnodwyd: _____

Enw llawn y claf: _____

Dyddiad Geni: _____

Rhif Cyswllt. _____

Cyfeiriad: _____

_____

_____

WMF1 Form

Cymru Wales

Trwyddedu Arfau Tanio

Ffurflen Gwybodaeth Feddygol Safonol

Mae unrhyw ymgais i ddiwygio'r ffurflen hon ar ôl i'r meddyg teulu ei chwblhau yn drosedd o dan Adran 28A (7) o'r Ddeddf Arfau Tanio. Os byddwch yn gwneud datganiad anwir yn fwriadol neu'n fyrbwyll er mwyn sicrhau bod tystysgrif yn cael ei rhoi neu ei hadnewyddu, y gosb uchaf yw chwe mis o garchar a/neu ddirwy mewn perthynas â hi.

MANYLION Y CLAF

Teitl:_____ Enw Llawn:_____

Cyfeiriad Cartref:_____

_____

Dyddiad Geni (DD/MM/BBBB):_____

GWYBODAETH FEDDYGOL

I'w chwblhau gan y meddyg teulu

Edrychwch ar gofnodion meddygol y claf am unrhyw hanes o'r canlynol a thiciwch y rhai hynny sy'n gymwys. Lle bydd unrhyw un yn gymwys, ychwanegwch ragor o fanylion dros y dudalen ***a all fod yn gyfyngedig i ddatganiad o ffaith ac nid barn****.*

A ydych wedi cael gafael ar gofnodion meddygol llawn y claf er mwyn cwblhau'r adroddiad hwn? Ydw ☐ Nac ydw ☐

Y DYDDIAD Y MAE'R COFNODION YN DECHRAU:_____ DYDDIAD YR YMGYNGHORIAD DIWETHAF:_____

Adwaith acíwt i straen neu adwaith acíwt i'r straen a achosir gan drawma	Ydw ☐ Nac ydw ☐
Meddyliau am hunanladdiad neu feddyliau neu fygythiadau am hunan-niwed	Ydw ☐ Nac ydw ☐
Iselder neu orbryder	Ydw ☐ Nac ydw ☐
Dementia	Ydw ☐ Nac ydw ☐
Mania, anhwylder deubegynol neu salwch seicotig	Ydw ☐ Nac ydw ☐
Diabetes	Ydw ☐ Nac ydw ☐
Anhwylder personoliaeth	Ydw ☐ Nac ydw ☐

Unrhyw nam niwrolegol difrifol (e.e. MS, clefyd Parkinson, clefyd Huntington neu epilepsi, neu unrhyw gyflwr y bu'n rhaid cael ymgynghoriad gan niwrolegydd ar ei gyfer)	Ydw ☐ Nac ydw ☐
Camddefnyddio alcohol neu gyffuriau	Ydw ☐ Nac ydw ☐
Strôc	Ydw ☐ Nac ydw ☐
Salwch angheuol yn y 2 flynedd ddiwethaf	Ydw ☐ Nac ydw ☐
A yw'r Claf yn dioddef o unrhyw gyflwr sy'n effeithio ar ei addasrwydd i feddu ar drwydded yrru?	Ydw ☐ Nac ydw ☐

LLOFNODWCH DROS Y DUDALEN A DARPARWCH RAGOR O FANYLION OS YDYCH WEDI TICIO UNRHYW UN O'R CWESTIYNAU UCHOD.

CYFRINACHOL - MEDDYGOL (unwaith iddo gael ei gwblhau)

CYFRINACHOL - MEDDYGOL (unwaith iddo gael ei gwblhau)

MANYLION PELLACH Parhau o'r dudalen flaenorol - os yw'n berthnasol:

Beth yw'r cyflwr meddygol? _____

Ers pryd mae'r claf wedi bod yn cael triniaeth ar gyfer y cyflwr hwn? _____

A yw'r claf yn dal i gael triniaeth ar gyfer y cyflwr hwn? _____

Manylion y feddyginiaeth a ragnodwyd _____

A yw'r claf wedi cael achosion blaenorol o'r cyflwr hwn? _____

Beth yw cyflwr presennol y claf? _____

A oes gennych unrhyw wybodaeth arall a all fod yn berthnasol i'r heddlu yn eich barn chi wrth benderfynu a yw'n ddiogel i'r claf feddu ar arfau tanio? _____

Enw'r Meddyg Teulu: _____ Stamp y Practis:

Llofnod y Meddyg Teulu: _____

Rhif y Cyngor Meddygol Cyffredinol: _____

Dyddiad: _____

NODIADAU CANLLAW

Dylai'r ymgeisydd lenwi ei fanylion personol ac yna gofyn i'w feddyg teulu gwblhau gweddill y ffurflen.

Gall y meddyg teulu godi ffi cyn cwblhau'r ffurflen.

CYFLWYNIAD:

Lluniwyd y ffurflen hon a phrosesau meddygol ar y cyd â Heddluoedd De Cymru, Gwent, Gogledd Cymru a Dyfed-Powys a Chymdeithas Feddygol Prydain - Cymru, er mwyn gwneud y canlynol:

- Gwella diogelwch y cyhoedd
- Lleihau llwyth gwaith yr Adran Trwyddedu Arfau Tanio a meddygon teulu
- Rhoi eglurder a chysondeb i ymgeiswyr ledled Cymru

CYFNOD Y DATA:

Er budd diogelwch y cyhoedd, dylid archwilio cofnodion sy'n dyddio'n ôl i'r cofnodion hynaf sydd ym meddiant y meddyg teulu, gan archwilio cofnodion papur lle maent yn ymddangos. Hefyd, dylai meddygon teulu nodi dyddiad y cofnod cyntaf yn y cofnodion yn y blwch a ddarperir.

FFIOEDD:

Mae canllaw Cymdeithas Feddygol Prydain yn ei gwneud yn glir nad yw darparu gwybodaeth feddygol am dystysgrifau dryll neu arf tanio yn rhan o waith y GIG ac nid yw'n rhan chwaith o rwymedigaethau cytundebol meddygon teulu. Felly, mae gan feddygon teulu yr hawl i gael cydnabyddiaeth am y gwaith hwn a gallant atal y gwaith nes iddynt dderbyn taliad. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd dalu ffi o'r fath.

ADRODDIADAU PELLACH:

O bryd i'w gilydd, pan fo'n ofynnol, efallai y bydd angen i'r Heddlu gysylltu â chlinigwyr eraill megis ymgynghorwyr i gael barn arbenigol ar ôl cael y ffurflen hon. Mae adroddiadau o'r fath y tu hwnt i gwmpas y ffurflen hon ac nid cyfrifoldeb y meddyg teulu yw dod o hyd iddynt. Gall yr Heddlu hefyd ysgrifennu at y meddyg teulu yn ystod oes tystysgrif gan ofyn am wybodaeth feddygol ffeithiol, a bydd yr Heddlu'n talu am yr adroddiad hwn.

BANERI:

Mae Canllawiau'r Swyddfa Gartref i'r Heddlu (Trwyddedu Arfau Tanio) yn gofyn i feddygon teulu osod cod atgoffa arfau tanio ar gofnod y claf. Mae hyn yn caniatáu i'r adolygiad parhaus o addasrwydd i feddu ar arfau tanio, petai problemau meddygol yn cael eu hamlygu. Bydd yr heddlu'n rhoi gwybod i feddygon teulu pan fydd tystysgrif yn cael ei rhoi er mwyn iddynt allu gosod 'baner' ar gofnod meddygol y claf.

CYFRIFOLDEB:

Prif gyfrifoldeb yr Heddlu o hyd yw penderfynu ar roi/gwrthod tystysgrif dryll neu arf tanio. Rôl y meddyg teulu yw rhannu gwybodaeth drwy ddatganiad o ffaith yn unig.

GWRTHWYNEBIAD CYDWYBODOL:

Mae canllaw Cymdeithas Feddygol Prydain yn gofyn i feddygon teulu gymryd camau rhesymol i roi gwybod i'w cleifion am eu gwrthwynebiad cydwybodol ymlaen llaw, a byddent yn cynghori meddygon sydd â chredoau o'r fath i sicrhau bod datganiad clir yn unol â hyn ar gael ar eu gwefan ac ar hysbysfyrddau yn ardaloedd cyhoeddus y practis.

Yn eu barn nhw, nid oes angen i wrthwynebwyr cydwybodol drefnu darpariaeth amgen ar gyfer adroddiad o'r fath. Serch hynny, lle bo cael arf tanio wrth law yn ofyniad proffesiynol, megis ciperiaid a ffermwyr, byddent yn annog meddygon i helpu ymgeiswyr i nodi cydweithiwr addas sy'n barod i gymryd rhan yn y broses ardystio arfau tanio.

ARCHWILIO:

Er budd diogelwch y cyhoedd, mae'r Heddlu yn cadw'r hawl i gadarnhau cywirdeb ffurflenni o bryd i'w gilydd â'r meddyg teulu a'u cwblhaodd.